

Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ar gyfer y ddeddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig

Cyflwyniad.....	3
Cefndir	3
Costau suddedig	4
Dull dadansoddi.....	5
Cwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.....	6
<i>Pwy?</i>	6
<i>Pa gostau?</i>	8
<i>Amserlenni</i>	9
Cafeatau	10
Y cwricwlwm gweddnewidiol.....	10
<i>Categoreiddio'r darpariaethau</i>	10
<i>Darpariaethau'n ymwneud â strwythur y Cwricwlwm</i>	13
Cynigion.....	13
Costau ac arbedion	13
Effeithiau cymdeithasol	16
<i>Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd</i>	18
Cynigion.....	18
Costau	18
Effeithiau cymdeithasol	19
<i>Y Gymraeg</i>	20
Cynigion.....	20
Costau ac arbedion	20
Effeithiau cymdeithasol	21
<i>Ieithoedd rhyngwladol</i>	23
Cynigion.....	23
Costau ac arbedion	23
Effeithiau cymdeithasol	24
<i>Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb</i>	25
Cynigion.....	25
Costau ac arbedion	26
Effeithiau cymdeithasol	26
<i>Addysg Grefyddol</i>	28

Cynigion.....	28
Costau ac arbedion	29
Effeithiau cymdeithasol	30
Y trefniadau asesu gweddnewidiol	31
<i>E-bortffolios</i>	32
Cynigion.....	32
Costau ac arbedion	32
Effeithiau cymdeithasol	33
Adolygu ar ôl gweithredu	34
Y camau nesaf	34
Cwestiynau	34
Llyfryddiaeth.....	36

Cyflwyniad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar y cyd â'i randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd, yn craffu ar gostau a manteision arfaethedig newidiadau i ddeddfwriaeth. I wneud hyn, bydd angen iddynt ddeall yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr holl randdeiliaid a sefydliadau y bydd y cynigion yn effeithio arnynt. Bydd hyn yn eu galluogi i ystyried manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau a gynigir, gan gynnwys yr opsiwn i gadw at y sefyllfa bresennol.

Maent yn gwneud hyn drwy gyfrwng yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhan o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig a rhaid iddo nodi'r canlynol:

- yr amcangyfrifon gorau o'r canlynol
 - i. Y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r ddeddfwriaeth yn arwain atynt;
 - ii. Yr arbedion gweinyddol y byddai'r ddeddfwriaeth yn arwain atynt;
 - iii. Costau gweinyddol net darpariaethau'r ddeddfwriaeth;
 - iv. Dros ba gyfnodau amser y disgwyliad i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac
 - v. Ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;
- Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth na ellir eu mesur yn ariannol.

Pwrpas y ddogfen: Pwrpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yw amlinellu'r cwmpas; y tybiaethau; y dystiolaeth; bylchau yn y dystiolaeth; a dechrau trafodaeth ar y dulliau ar gyfer pennu costau, arbedion, manteision ac anfanteision y newidiadau arfaethedig.

Cefndir

Mae'r Papur Gwyn yn nodi'r cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth i weithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn un elfen mewn cyfres o ddiwygiadau i gefnogi'r trefniadau newydd, sy'n newid sylweddol i'r system addysg yng Nghymru: megis Dysgu Proffesiynol; Arweinyddiaeth; Addysg Gychwynnol Athrawon; a threfniadau gwerthuso newydd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymdrin â'r darpariaethau deddfwriaethol a nodir yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Felly, nid yw'n cynnwys costau ac effeithiau'r holl waith sy'n cael ei

wneud i gefnogi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, ond yn hytrach y rheini sydd â gofynion deddfwriaethol cysylltiedig yn unig¹.

Mae'r Asesiad drafft hwn yn ystyried dau opsiwn ar gyfer cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn:

- 1) Busnes fel arfer - mae hyn yn golygu cadw'r darpariaethau presennol yn ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu.
- 2) Cyflwyno deddfwriaeth newydd (gan gynnwys diwygio'r darpariaethau deddfwriaethol presennol) yn ymwneud â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus.

Mae'r egwyddor o gael Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth ers 1988. Nod y deddfwriaeth arfaethedig yw ailddatgan yr egwyddor hon o fframwaith cwricwlwm cenedlaethol i Gymru. Felly, mae sylfaen y gofynion deddfwriaethol a osodir ar elfennau o'r system addysg yn debyg i'r gofynion sydd eisoes yn bodoli, ond yn ceisio newid ffocws yr addysgu a'r dysgu yn unol â'r argymhellion yn Dyfodol Llwyddiannus. Bydd y darpariaethau deddfwriaethol yn fodd i wneud y newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol sydd eu hangen yn y system. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r ystod o newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol y gallem eu gweld o ganlyniad i'r cynigion deddfwriaethol.

Mae costau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth newydd ond a wariwyd cyn ei gweithredu yn gostau suddedig. Mae costau suddedig yn cyfeirio at gostau a ysgwyddwyd eisoes ac ni ddylid eu cynnwys mewn arfarniad o gostau polisi.

Costau suddedig

Yn Llywodraeth Cymru, costau suddedig deddfwriaeth yw'r costau hynny a ysgwyddwyd cyn y flwyddyn ariannol y mae'r deddfwriaeth arfaethedig yn dod yn gyfraith². Yn achos y deddfwriaeth yn ymwneud â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, rydym yn gweithio ar sail y dybiaeth y bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bennaf yn arfarnu'r costau a'r effeithiau o'r flwyddyn ariannol y caiff y Cynulliad ei ddiddymu ar gyfer yr etholiadau nesaf: Ebrill 2021. Dyma enghreifftiau o'r costau suddedig mewn perthynas â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu:

- Diwygiadau i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol er mwyn iddynt gydymffurfio â'r cwricwlwm newydd;

¹ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf>

² Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi (2018): Canllawiau'r Llywodraeth Ganolog ar Arfarnu a Gwerthuso.

- Datblygu a chyflwyno Profion Addasol Ar-lein;
- Datblygu e-bortffolios;
- Cyllid i ysgolion arloesi ar gyfer datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh);
- Datblygu canllawiau statudol ar y cwricwlwm;
- Datblygu canllawiau ar gyfer Addysg Grefyddol;
- Datblygu canllawiau ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb;
- Cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol (cyn 2021) i gefnogi lansiad y Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol; a
- Newidiadau i'r ddarpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) er mwyn adlewyrchu'r trefniadau newydd.

Ni chaiff costau suddedig eu cynnwys yn yr asesiad o gostau sy'n edrych ymlaen, ond cânt eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol. Ysgwyddwyd y costau hyn am eu bod yn angenrheidiol i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi (e.e. cyllid yr ysgolion arloesi ar gyfer datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad) neu eu bod yn elfennau strwythurol sy'n gofyn am gyfnod rhagarweiniol ac y mae angen iddynt fod yn eu lle er mwyn gweithredu'r trefniadau newydd yn strategol yn 2022 (e.e. newidiadau i ddarpariaeth AGA).

Dull dadansoddi

Mae dull cadarn a thrylwyr o amcangyfrif costau a manteision yn hollbwysig ar gyfer deddfwriaeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen bod yn gymesur hefyd a sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae ein dull dadansoddi bras ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel a ganlyn:

1. Lle mae gwybodaeth ariannol ar gael ac yn berthnasol, bydd y costau a'r manteision yn cael eu moneteiddio. Gallai hyn gynnwys defnyddio gwybodaeth brocsi ar gyfer costau i ddangos y gwariant, yr arbedion neu'r costau a ragwelir.
2. Os nad yw hyn yn briodol, bydd y manteision a'r effaith yn cael eu meintoli lle'n bosibl.
3. Fodd bynnag, o ystyried natur y newidiadau deddfwriaethol a gynigir, rhagwelir y bydd nifer o'r effeithiau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol, lenyddol neu brocsi.

Mae'n bwysig nodi bod natur y newidiadau i'r deddfwriaeth yn fodd i gyflawni newid diwylliannol ac ymddygiadol i'r addysgu a'r dysgu, ac felly mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r Asesiad yn canolbwyntio ar bwynt tri: *bydd yr effeithiau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol, lenyddol neu brocsi*. Bydd unrhyw benderfyniadau a thybiaethau yn y broses hon yn cael eu gwneud

mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid ac arbenigwyr yn unol â'r nod o gyd-greu'r diwygiadau sy'n sail i'r cynigion hyn, a hynny drwy Grŵp Llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r darpariaethau arfaethedig a'u heffaith wedi'u rhannu'n dri chategori cyffredinol:

Categori 1 - Newid deddfwriaethol gyda newid sylweddol i arferion

Dyma ddarpariaethau deddfwriaethol na fydd yn newid llawer ar bwyntiau cyfreithiol yn ein tyb ni ond a fydd yn gofyn am newidiadau sylweddol i arferion neu'n arwain at hynny.

Categori 2 - Newidiadau deddfwriaethol i gyd-fynd ag arferion

Dyma newidiadau deddfwriaethol na fydd yn effeithio llawer ar arferion yn ein tyb ni. Er enghraifft, ni chaiff elfen o'r ddeddfwriaeth bresennol nad ydym yn ei gorfodi ac nad yw'n cael ei chyflawni eu cadw yn y deddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig.

Categori 3 - Gwelliannau technegol

Dyma ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n bodoli mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd ac sy'n cael eu hatgynhyrchu yn yr un modd yn y ddeddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig. Mae'n bosibl y bydd gwelliannau technegol i'r darpariaethau hyn er mwyn sicrhau bod y geiriau a'r cymalau'n berthnasol i'r trefniadau newydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n cael eu hailddeddfu yn y ddeddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig.

Cwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Pwy?

Bydd y darpariaethau'n cael effaith wahanol ar grwpiau gwahanol. Mae angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sicrhau bod y grwpiau yr effeithir arnynt yn cael eu cynrychioli'n gywir yn yr Asesiad a bod y broses o asesu'r effaith arnynt yn gymesur.

Mae'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- 1) **Dysgwyr a rhieni** - prif fuddiolwyr y diwygiadau. Gwell profiadau a deilliannau i ddysgwyr yw prif bwrpas y diwygiadau a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus.
- 2) **Partneriaid gweithredu** - mae'r rhain yn cynnwys ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir; darparwyr addysg feithrin nas cynhelir; ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Bydd gofynion deddfwriaethol uniongyrchol ar y lleoliadau hyn o ganlyniad i'r darpariaethau arfaethedig.

Efallai y bydd lleoliadau eraill yn dymuno mabwysiadu cwricwlwm sy'n unol â'r Cwricwlwm i Gymru, ond mater o ddewis fydd hyn yn hytrach nag o ganlyniad i'r deddfwriaeth.

Mae'r lleoliadau hyn o fewn cwrpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan fod y darpariaethau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol iddynt yn gyfreithiol i ddarparu'r cwricwlwm.

- 3) **Partneriaid gweithredu strategol** - Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; consortia addysg rhanbarthol; Estyn; Cymwysterau Cymru; Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau); a Chymdeithas CYSAGau Cymru. Bydd gofyn i'r grwpiau hyn gyflawni neu gefnogi'r broses o weithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.


Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau mewn perthynas â darparu addysg ysgol orfodol yn eu hardal, sy'n cynnwys darparu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

Bydd gan y consortia rhanbarthol rôl allweddol o ran cefnogi ysgolion ac ymarferwyr i weithredu'r darpariaethau hyn, a bydd cost ac effaith yn gysylltiedig â hynny. Byddant yn darparu cymorth ar gyfer y cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol a gweithgareddau i wella ysgolion. Bydd rhywfaint o hyn yn barhad o'u rolau a'u gweithgareddau presennol ond bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tynnu sylw at elfennau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i'r deddfwriaeth.

Prif rôl Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a defnyddio'r dystiolaeth y maent yn ei chasglu i wella capasiti i ddarparu addysg a hyfforddiant. Felly, un o ofynion sylfaenol eu rôl yw eu bod yn addasu i newidiadau yn y system addysg er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau arolygu a'u cylch gwaith yn addas i'r diben. Mae Cymwysterau Cymru yn sicrhau bod y system gymwysterau yng Nghymru'n adlewyrchu'r cwricwlwm fel yr amlinellir gan Weinidogion Cymru. Caiff effaith y newidiadau hyn ar Gymwysterau Cymru ei hystyried ymhellach pan fydd y cwricwlwm yn cael ei ryddhau ym mis Ebrill 2019.

Mae'r Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau) wedi'u pennu mewn deddfwriaeth a'u rôl yw cynghori awdurdodau lleol ar yr addysg grefyddol i'w darparu yn unol â'r maes llafur cytunedig, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a hyfforddiant i athrawon. Felly, byddant yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth addysg grefyddol mewn dosbarthiadau meithrin.

Figur 1: Cwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig



Bernir bod y canlynol y tu allan i gwmpas yr asesiad: Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol; Addysg Gychwynnol Athrawon; a Sefydliadau Addysg Uwch. Y rheswm am hyn yw na fydd angen newid y ddeddfwriaeth neu ei phrif bwrpas i adlewyrchu'r darpariaethau arfaethedig, neu byddant yn newid cyn 2021 yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd (ac felly maent yn gostau suddedig). Er enghraifft: y cynlluniau ar gyfer rhaglenni cwrs newydd mewn Addysg Gychwynnol Athrawon i gyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd fel bod Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) yn barod ar gyfer cyflwyno'r darpariaethau deddfwriaethol yn statudol ym mis Medi 2022. Felly, caiff y costau datblygu sy'n gysylltiedig ag addasu'r ddarpariaeth AGA i adlewyrchu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd eu diffinio fel costau suddedig.

Pa gostau?

Mae natur y newidiadau deddfwriaethol a gynigir yn galluogi newidiadau i'r addysgu a'r dysgu mewn ysgolion a lleoliadau yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio **ailldatgan** cwricwlwm cenedlaethol i Gymru mewn deddfwriaeth. Felly, mae'n annhebygol y bydd gan nifer o'r newidiadau arfaethedig gostau clir â gwerth ariannol iddynt sy'n gysylltiedig â newidiadau i addysgu a dysgu. Yn hytrach, rydym yn awgrymu y gellir darparu costau â gwerth ariannol ar gyfer y cymorth a ddarperir i

ymarferwyr er mwyn newid eu harferion mewn ysgolion (h.y. Dysgu Proffesiynol) a dyma fydd y gwariant mwyaf yn ymwneud â'r newidiadau deddfwriaethol. Mae Dysgu Proffesiynol yn hanfodol er mwyn galluogi ysgolion i wneud newidiadau i'w dulliau addysgu a dysgu. Hynny yw, cymorth ar ffurf amser rhyddhau, darpariaeth Dysgu Proffesiynol, a hybu cydweithio rhwng ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn cyflawni'r newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol a alluogir. Caiff hyn ei archwilio ymhellach yn adrannau nesaf yr Asesiad drafft hwn.

Bydd cyflwyno Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol o fis Tachwedd 2018 yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu ymateb i unrhyw anghenion datblygu sy'n dod i'r amlwg. Y bwriad yw y bydd y cyllid a roddir yn cefnogi ac yn hwyluso'r canlynol:

- a) Diwrnod(au) dysgu proffesiynol cenedlaethol
- b) Dysgu traddodiadol, dysgu o fewn yr ysgol ac e-ddysgu i athrawon;
- c) Hyblygrwydd ariannol er mwyn i ysgolion gydweithio â'i gilydd.

Cynigir bod gwybodaeth am wariant a ysgwyddwyd hyd at 2012 yn cael ei defnyddio yn yr Asesiad fel procsi ar gyfer yr wybodaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r costau llawn sy'n ofynnol ar gyfer cefnogi ymarferwyr a phartneriaid gweithredu. Caiff hyn ei drafod isod ar gyfer y darpariaethau perthnasol.

Amserlenni

Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn raddol, gan ddechrau ym mis Medi 2022 a dod i ben ym mlwyddyn academaidd 2026/27³.

Mae angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol adlewyrchu costau, arbedion a manteision y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo i system newydd ond hefyd y 'Busnes fel arfer' newydd neu lle mae'r trefniadau newydd yn cael eu hymgorffori i'r system. Yr amserlen safonol ar gyfer Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru yw pum mlynedd gan amlaf. Fodd bynnag, gan fod y trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno'n raddol, bydd pum mlynedd ond yn cwmpasu'r cyfnod trosglwyddo ac ni fydd yn caniatáu amser i'r trefniadau ddatblygu'n 'fusnes fel arfer'. Felly, rydym yn cynnig cyfnod arfarnu o 10 mlynedd ar gyfer yr Asesiad yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig.

³Meithrin i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2022; Blwyddyn 8 yn mis Medi 2023; Blwyddyn 9 ym mis Medi 2024; Blwyddyn 10 ym mis Medi 2025; a Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

Cafeatau

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r syniadau cychwynnol ar y darpariaethau arfaethedig a nodir yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, mae natur y darpariaethau'n golygu y bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau i ddatblygu wrth i'r darpariaethau hyn newid o ganlyniad i'r adborth ar y Papur Gwyn.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys costau ariannol sy'n seiliedig ar y gwariant a ysgwyddwyd yn 2017-18 a'r gwariant a gyllidebwyd ar gyfer 2018-19. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys fel procsi i'r mathau o wybodaeth a fydd yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad terfynol, ac nid ydynt yn ymrwymadau i wariant yn y dyfodol gan fod y broses ddatblygu'n mynd rhagddi o hyd.

Bydd y manylion ynghylch cynnwys y cwricwlwm newydd ar gael i bobl roi adborth arno ym mis Ebrill 2019 yn dilyn ymgysylltu a chydweithio helaeth â'r ysgolion arloesi ac ymarferwyr arbenigol. Felly, mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r camau cynnar o gasglu tystiolaeth i gefnogi asesiad o'r costau, yr effeithiau, y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig.

Caiff y ddogfen hon ei datblygu ymhellach pan fydd y cwricwlwm ar gael ar gyfer adborth ym mis Ebrill 2019 ac wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth.

Y cwricwlwm gweddnewidiol

Mae'r egwyddor o Gwricwlwm Cenedlaethol i Gymru wedi'i hymgorffori mewn cyfraith ers 1988. Caiff yr egwyddor hon ei chynnal yn yr argymhellion a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus, ond gyda newidiadau i sicrhau ei bod yn hyblyg ac yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Bydd yr adran hon yn amlinellu'r canlynol:

- Pa ddarpariaethau a sut y maent wedi'u categorio o ran eu heffaith;
- Ar bwy y mae'r cynigion yn effeithio arnynt;
- Pa ffynonellau gwybodaeth/tystiolaeth yr ydym yn cynnig eu defnyddio;
- Pa fylchau yn y dystiolaeth yr ydym yn cynnig eu llenwi.

Categorioedd y darpariaethau

Mae'r darpariaethau deddfwriaethol arfaethedig a nodir isod yn gofyn am newidiadau i arferion er mwyn gweithredu trefniadau gwahanol ar gyfer y cwricwlwm. Caiff y rhain eu harfarnu fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- 1) Dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i gynllunio i fodloni'r pedwar diben, i gymryd lle'r ddyletswydd bresennol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.
- 2) Dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid i ddarparu cwricwlwm sy'n cynnwys y MDPH a enwir, i gymryd lle'r rhestrau presennol o bynciau, gan gynnwys pŵer i ddatblygu canllawiau statudol yn ymwneud â chynnwys MDPH. Cynigir bod hyn yn cael ei ategu gan bŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer pob MDPH.
- 3) Dyletswydd ar ysgolion i gyflawni'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm.
- 4) Gwneud i ffwrdd â'r gwahaniaeth rhwng pynciau craidd a pynciau sylfaen.
- 5) Dileu'r derminoleg Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol i greu continwmm dysgu.
- 6) Pwerau i wneud rheoliadau er mwyn pennu pwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.
- 7) Gwneud Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn rhan statudol o'r cwricwlwm hyd at 16 oed.
- 8) Gwneud Addysg Grefyddol yn rhan statudol o'r cwricwlwm hyd at 16 oed.
- 9) Gwneud y Gymraeg yn rhan statudol o'r cwricwlwm ond gwneud i ffwrdd â'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.

Mae'r ail gategorïau o ddarpariaethau yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r arferion mewn ysgolion a lleoliadau, ac felly bydd yna effeithiau ond byddant yn fwy penodol:

- 1) **Gofyniad i ysgolion ddatblygu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd penodedig** - bydd llythrennedd a rhifedd yn parhau'n rhannau statudol o'r cwricwlwm. Caiff cymhwysedd digidol ei gefnogi ar hyn o bryd fel elfen drawsgwricwlaidd. Cynigir bod cymhwysedd digidol yn dod yn statudol, ond i rai ysgolion byddai hynny'n golygu bod y ddeddfwriaeth bellach yn cydymffurfio â'u harferion presennol.
- 2) **Dileu'r gofyniad i Addysg Grefyddol gael ei ddarparu mewn ysgolion ar ôl oedran ysgol gorfodol** - nid yw hyn yn cael ei orfodi ar draws y system addysg ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei gyflawni.
- 3) **Meithrinfeydd nas cynhelir i ddarparu addysg grefyddol** - ar hyn o bryd mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Cyflwyno Addysg Grefyddol yn helpu i gyflwyno'r pwnc hwn yn y Cyfnod Sylfaen drwy'r meysydd dysgu canlynol: Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, a Datblygiad

Creadigol. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid addysgu'r pwnc hwn mewn dosbarthiadau meithrin yn ôl y ddeddfwriaeth bresennol.

Bydd y darpariaethau canlynol yn cael eu cadw yn y ddeddfwriaeth, ond bydd angen gwelliannau technegol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau newydd yng Nghymru. Felly, ni fydd y darpariaethau hyn yn cael eu harfarnu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

- 1) **Sicrhau bod gan ddysgwyr ddewis rhwng 14-16 oed** - mae'r cynnig hwn yn newid technegol i ddarpariaeth bresennol er mwyn adlewyrchu'r bwriad i gefnu ar deitlau pwnc traddodiadol a chyflwyno Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r bwriad polisi sydd wedi'i amlinellu yn y ddeddfwriaeth yn parhau - sef rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr o ran cyrsiau a mwy o hyblygrwydd.
- 2) **Gwneud Saesneg yn rhan statudol o'r cwricwlwm** - mae hyn eisoes yn un o ofynion y cwricwlwm a bydd yn cael ei hailddeddfu fel rhan o'r trefniadau newydd.
- 3) **Cadw'r gofyniad statudol presennol i ddarparu addysg gyrfaoedd i ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir ym mlynnyddoedd 10 ac 11** - bydd y darpariaeth hon yn cael ei hailddeddfu.
- 4) **Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol** - mae'r cynnig hwn yn newid technegol i ddarpariaeth bresennol er mwyn adlewyrchu newid i'r derminoleg o 'Cwricwlwm Cenedlaethol' i 'Cwricwlwm i Gymru'. Mae'r bwriad polisi ac felly'r lwfans i benaethiaid yn aros yr un fath.
- 5) **Arbrofion datblygu a gwaith** - mae'r bwriad polisi a'r defnydd o'r pwerau hyn yn aros yr un fath. Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio er mwyn adlewyrchu newid yn y derminoleg o 'Cwricwlwm Cenedlaethol' i 'Cwricwlwm i Gymru'.
- 6) **Caiff Gweinidogion Cymru eu hatal rhag pennu amserau penodol yn amserlenni ysgolion ar gyfer MDPH penodol** - mae'r bwriad polisi yn aros yr un fath. Bydd y darpariaeth hon yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r newid o bynciau i MDPH.
- 7) **Gweinidogion Cymru i ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ar sut i arfer swyddogaethau addysg er mwyn gwella safon yr addysg** - bydd y darpariaeth hon yn cael ei hailddeddfu.

Darpariaethau'n ymwneud â strwythur y Cwricwlwm

Cynigion

Yr opsiwn a ffeifir yw cyflwyno deddfwriaeth sy'n cynnwys y darpariaethau canlynol (sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd ar gyfer y dadansoddiad hwn):

- Dyletswydd gyffredinol ar ysgolion a lleoliadau i drefnu a darparu cwricwlwm a fydd yn cyflawni pedwar diben addysg.
- Dyletswydd i ddarparu cwricwlwm sydd wedi'i seilio ar chwe MDPH a enwir a gwneud i ffwrdd â'r gwahaniaeth rhwng pynciau craidd a phynciau sylfaen.
- Pŵer i ddarparu canllawiau statudol sy'n amlinellu cwmplas pob MDPH.
- Gwneud i ffwrdd â chyfnodau allweddol a threfnu'r cwricwlwm cenedlaethol newydd fel continwrm dysgu.
- Pwerau i wneud rheoliadau er mwyn pennu pwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.
- Dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid i lunio a gweithredu cwricwlwm ar gyfer eu hysgolion sy'n galluogi disgyblion i gyflawni neu ragori ar y Deiliant Cyflawniad ar gyfer pob Cam Cynnydd.
- Gwreiddio profiadau gwaith ar draws y chwe MDPH.

Byddai'r opsiwn 'Busnes fel arfer' yn cadw'r darpariaethau deddfwriaethol canlynol: dyletswydd i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion; cwricwlwm sydd wedi'i seilio ar gyfnodau allweddol gyda gofynion pwnc penodol ar gyfer pob cyfnod; gwahaniaeth rhwng pynciau craidd a phynciau sylfaen; a chynnwys y pynciau a'u trefniadau asesu wedi'u trefnu'n Rhaglenni Astudio.

Bydd y darpariaethau hyn yn effeithio ar y grwpiau canlynol: dysgwyr; ysgolion ac ymarferwyr; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; Estyn; a Chymwysterau Cymru.

Costau ac arbedion

Ceir dwy brif gost ar gyfer aildeddfu darpariaethau uchod. Y gost ar gyfer newid y trefniadau sydd gan ysgolion ar gyfer y cwricwlwm; a'r gost o ran Dysgu Proffesiynol a chefnogi'r cwricwlwm sy'n gysylltiedig â symud ymarferwyr o'r arferion presennol i'r arferion a alluogir gan y darpariaethau arfaethedig. Rhagwelir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau statudol yn gostau suddedig, gan y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n barod ar gyfer rhyddhau'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu terfynol ym mis Ionawr 2020.

O ran y gost ar gyfer newid y trefniadau ar gyfer cwricwlwm mewn ysgolion, ystyrir bod hyn yn rhan o'u gweithgarwch craidd. Ni fydd hanfodion y dyletswyddau ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid yn newid o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth arfaethedig - ond bydd y ffordd y maent yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn newid a'r ystyriaethau wrth baratoi i gyflawni'r dyletswyddau mewn ysgolion a dosbarthiadau. Mae darparu'r cwricwlwm a'i gefnogi yn rhan annatod o'u rôl.

Mae cyllid i ddarparu'r cwricwlwm yn rhan o'r cyllid craidd a roddir i ysgolion. Caiff y cyllid ar gyfer ysgolion ei bennu gan yr awdurdodau lleol o'u cyllidebau nhw sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru, y dreth gyngor a chyllid arall. Nid yw'r arian hwn wedi'i neilltuo - golyga hyn fod awdurdodau lleol yn gallu dewis sut i wario eu cyllideb lawn a gall ysgolion ddewis sut i wario eu cyllidebau nhw. O ystyried yr ymreolaeth hon a'r amrywiaeth sy'n debygol ar lefel ysgolion, byddai'n gamarweiniol casglu'r wybodaeth hon er mwyn cyfrifo cyfartaleddau ar gyfer awdurdodau lleol neu gyfartaleddau cenedlaethol. Ni fyddai'n addas chwaith i bennu yn yr Asesiad hwn y swm 'priodol' i'w wario ar weithredu'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm.

Daethpwyd i'r casgliad yn dilyn gwaith cwmpasu gyda rhanddeiliaid y byddai dadansoddi cyllidebau ysgolion yn ôl ba dasgau sy'n cefnogi pa un o'r dyletswyddau uchod yn aneconomaidd gan nad yw ysgolion yn hystyried eu hamser fel hyn.

Felly, bydd y gost o ddarparu cwricwlwm mewn ysgolion yn cael ei dangos fel cyllideb ddirprwyedig gyfartalog ysgolion. Y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn 2018-19 oedd £2.566 miliwn. Caiff 84.2% o gyfanswm y gwariant gros a gyllidebir ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion.

Tabl 1: Y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yn 2018-19 yn ôl awdurdod lleol

2018-19	Lleiafswm	Uchafswm	Cyfartaledd Cymru
Y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion fesul awdurdod lleol (£000oedd)	50,934	300,156	116,657
O'r gwariant gros, y gyllideb a ddirprwywyd i	43,915	269,799	98,179

ysgolion fesul awdurdod lleol (£000oedd)			
--	--	--	--

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018) <https://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-budgeted-expenditure-schools/?skip=1&lang=cy>

Tabl 2: Cyfanswm gros y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion fesul disgybl yn 2018-19

Y gyllideb a ddirprwywyd i ysgolion yn 2018-19	Lleiafswm	Uchafswm	Cyfartaledd Cymru
Cyfartaledd ar draws pob sector (£000oedd)	4,443	5,416	4,776
Cynradd (£000)	3,877	5,004	4,253
Uwchradd (£000)	4,572	5,564	5,069
Arbennig (£000)	14,909	41,264	21,298

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018) <https://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-budgeted-expenditure-schools/?skip=1&lang=cy>

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel procsi ar gyfer yr wybodaeth a ddefnyddir yn yr Asesiad terfynol i gyfrif y gost o weinyddu'r cwricwlwm a'r strwythur asesu newydd⁴.

Yr ail gost sylweddol arfaethedig yw'r gost yn ymwneud â chefnogi'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol (cyllid ar gyfer darparu gweithgareddau ond hefyd ar gyfer rhyddhau athrawon i'w mynychu). Mae'r newidiadau i'r cwricwlwm a amlygwyd yn y darpariaethau arfaethedig yn cynrychioli newidiadau i'r addysgu a dysgu mewn ysgolion. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn newid yn sylweddol y gofynion ar ysgolion na'r bwriad sy'n sail i gwricwlwm cenedlaethol.

Yn 2017-18, darparodd Llywodraeth Cymru oddeutu £6.458 miliwn ⁵i gefnogi'r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer pynciau craidd a sgiliau codio ac i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £9 miliwn yn 2018-19 a £15 miliwn yn 2019-20 i gefnogi Dysgu Proffesiynol drwy'r Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol. Bydd yr arian hwn yn cael ei neilltuo er mwyn sicrhau y caiff ei ddefnyddio i greu amser i ymarferwyr wneud newidiadau i'w

⁴Caiff y costau hyn eu cynnwys fel procsi ar gyfer y mathau o wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys yn yr Asesiad terfynol, ac nid ydynt yn ymrwymadau i wariant yn y dyfodol gan fod y broses ddatblygu'n mynd rhagddi o hyd.

⁵Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd gan fod hyn wedi'i gynnwys yn yr adran isod ar gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd.

harferion cyn bod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael eu cyflwyno. Bydd yn fodd i ddarparu staff cyflenwi er mwyn rhoi amser i ymarferwyr gymryd rhan mewn Dysgu Proffesiynol; cymell a gwobrwyo staff i ymchwilio goblygiadau'r newidiadau i'r cwricwlwm; a chreu rolau a swyddi i gefnogi'r newidiadau a wneir.

Cynigir bod hyn yn cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer yr wybodaeth a fydd yn cael ei defnyddio yn yr Asesiad terfynol ar y gwariant i gefnogi Dysgu Proffesiynol i ymarferwyr i'w helpu i weithredu'r trefniadau a nodir yn y darpariaethau deddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru (2019 - i'w gadarnhau) yn cefnogi'r dybiaeth hon gan fod ymarferwyr o'r farn mai'r gost fwyaf sy'n gysylltiedig â darparu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yw'r gost ar gyfer creu amser i baratoi ar gyfer y newidiadau.

Yn olaf, mae angen adnoddau i ddarparu'r cwricwlwm yn Gymraeg a Saesneg yng Nghymru a chaiff y rhain eu datblygu'n fasnachol gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol y bydd rhywfaint o'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu adnoddau yn gost suddedig sydd y tu allan i gwmpas yr Asesiad. Bydd y costau cysylltiedig eraill yn rhai dros dro, a bydd modd asesu pa gostau sydd o fewn cwmpas yr Asesiad terfynol pan fydd cynnwys y cwricwlwm wedi'i ryddhau.

Effeithiau cymdeithasol

Mae'r newidiadau i'r darpariaethau deddfwriaethol yn ceisio newid yr addysgu a'r dysgu fel y nodir yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl. Ceir tystiolaeth o'r newidiadau y gallai ysgolion eu gwneud o ganlyniad i hyn.

Mae gwaith thematig Estyn i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd⁶ yn darparu rhywfaint o dystiolaeth ansoddol ynghylch sut y bydd ymddygiad a diwylliant ysgolion yn newid at ddibenion y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Mae'r adroddiad yn dangos bod ysgolion yn addasu eu gweithdrefnau hunanwerthuso er mwyn penderfynu sut mae angen iddynt newid eu cwricwlwm a'u haddysgeg. Dengys y prif gasgliadau fod ysgolion:

- yn croesawu ac yn ymgorffori'r Pedwar Diben;
- yn datblygu dulliau o ddatblygu hyder ymarferwyr i newid eu harferion;
- yn defnyddio tystiolaeth o waith ymchwil; ac
- yn datblygu profiadau addysgol ar gyfer dysgwyr.

Mae'r prosiect ymchwil ar newidiadau mewn ysgolion ac addasiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (Llywodraeth Cymru, 2019 - i'w gadarnhau) yn tynnu sylw at y camau amrywiol y gall ysgolion

⁶ <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arloesir-cwricwlwm-mewn-ysgolion-cynradd>

eu cymryd i gyflwyno trefniadau newydd fel y cynigir yn Dyfodol Llwyddiannus, a sut y gallant addasu ac aildrefnu eu cyllidebau presennol i gyflawni'r newidiadau a ddymunant. Mae hyn yn dangos effaith darparu cwricwlwm statudol newydd ar ysgolion, gan gynnwys: amser i gynllunio ar gyfer darparu'r trefniadau newydd; y costau i ryddhau athrawon o'r dosbarth i wneud hyn neu i ymgymryd â dysgu proffesiynol; addysgu ar draws grwpiau blwyddyn; a mwy o ffocws ar addysgeg.

Mae'r ddwy ffynhonnell hon o dystiolaeth yn rhoi syniad i ni o'r hyn a fydd yn digwydd mewn ysgolion a gydag ymarferwyr i'w galluogi i ddarparu'r trefniadau newydd, a'r mathau o newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol a allai ddeillio o'r cynigion deddfwriaethol. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon fel procsi ar gyfer effaith gymdeithasol y newidiadau i'r darpariaethau arfaethedig a'r effaith o ran costau.

Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd

Cynigion

Yr opsiwn a ffefrir yw rhoi sail statudol gyfartal mewn deddfwriaeth sylfaenol i'r tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, sef Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.

Ers 2013, mae Llythrennedd a Rhifedd wedi bod yn elfennau statudol o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru a gefnogir gan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Felly, tybir mai ychydig iawn o effaith a gaiff y ddarpariaeth hon. Byddai'r opsiwn 'Busnes fel arfer' yn cadw statws cyfreithiol gwahanol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Byddai Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm newydd yn ofyniad statudol newydd i ysgolion a'u rhanddeiliaid.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, a gyflwynwyd yn 2016, yn cefnogi ymgorffori cymhwysedd digidol yn y cwricwlwm ysgol. Mae'r gost o ddatblygu'r fframweithiau ategol yn gost suddedig am fod y gwaith hwn eisoes wedi'i gwblhau.

Tybir y bydd yr effaith fwyaf ar ysgolion a chyrrff llywodraethu. Mae Estyn eisoes wedi addasu eu fframwaith arolygu ac mae eu cylch gorchwyl wedi cynnwys gwaith a ddeilliodd o gyhoeddi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol⁷ yn 2016. Mae'r consortia rhanbarthol eisoes wedi penodi arweinwyr digidol i weithio gydag ysgolion arloesi digidol er mwyn helpu ysgolion i integreiddio cymhwysedd digidol ar draws eu cwricwlwm. Felly, mae'r newid hwn yn gost suddedig i'r sefydliadau hyn.

Costau

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n helpu i gyflwyno llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm drwy ddarparu cyllid ar gyfer cyfleoedd Dysgu Proffesiynol ac i gefnogi'r cwricwlwm. Felly, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio mai dyma lle bydd y costau mwyaf ar gyfer cyflwyno cymhwysedd digidol yn elfen statudol o'r cwricwlwm yng Nghymru.

Yn 2017-18, darparodd Llywodraeth Cymru £413,000 i helpu ysgolion i weithredu'r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol. Rhoddwyd cyllid ychwanegol (£500,000 yn 2017-18) i'r consortia rhanbarthol er mwyn cefnogi llythrennedd a rhifedd yn eu hysgolion. Mae'r gost o gefnogi'r rhaglen llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion yn nodi'r wybodaeth am gostau y cynigir ei chynnwys yn yr Asesiad i adlewyrchu'r cymorth ar gyfer statws statudol arfaethedig cymhwysedd digidol.

⁷ <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?skip=1&lang=cy>

Wrth gynllunio'r Fframwaith, gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â chyfeirio at dechnoleg benodol yn y manylebau sgiliau, er mwyn i ysgolion/lleoliadau allu ei gyflwyno i raddau helaeth o fewn yr adnoddau sydd ganddynt eisoes neu drwy'r hyn sydd eisoes wedi'i gynllunio ganddynt. Canolbwytir yn bennaf ar ddatblygu hyder a gallu digidol athrawon/ymarferwyr, ac ar syniadau i ymgorffori'r Fframwaith yn eu haddysgu, yn hytrach nag ar galedwedd neu feddalwedd. Felly, nid yw newidiadau i galedwedd a meddalwedd a'r costau cysylltiedig yn rhan o gwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r costau datblygu sy'n gysylltiedig â'r cynnig Dysgu Proffesiynol Digidol yn gost suddedig ac nid yw'n cael ei arfarnu yn yr Asesiad hwn.

Effeithiau cymdeithasol

Ceir tystiolaeth o fanteision pynciau, galwedigaethau neu themâu trawsgwricwlaidd o ran sicrhau bod y cwricwlwm yn addas i'r diben. Mae Adolygiad Caergrawnt o Addysg Gynradd (Alexander, 2010) yn honni bod themâu neu grwpiau trawsgwricwlaidd yn fwy priodol ar gyfer datblygiadau'r oes a'r ansicrwydd ynghylch y dyfodol, ac yn golygu bod y cwricwlwm a'r effaith ar ddysgwyr yn gallu addasu'n well i anghenion y dyfodol. Yn benodol, mae gwneud cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd statudol yn bwysig er mwyn cefnogi'r farchnad lafur lle mae meddwl cyfrifiadurol yn dylanwadu ar ymchwil ym mron pob disgyblaeth (Bundy, 2007, in Wing, 2008). Nododd y Panel Adolygu TGCh annibynnol yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru fod cymhwysedd digidol yr un mor bwysig yn yr unfed ganrif ar hugain â llythrennedd a rhifedd.

Mae mabwysiadu cymhwysedd digidol fel rhan statudol o'r cwricwlwm hefyd yn debygol o effeithio ar ddysgwyr a staff. Bydd angen archwilio'r effeithiau hyn wrth i'r Asesiad ddatblygu.

Mae Estyn eisoes wedi dechrau ystyried sut i ymgorffori cymhwysedd digidol yng nghwricwlwm ysgolion yng Nghymru (Estyn, 2018). Mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o arferion arloesol a diddorol mewn ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, ac yn eu rhannu er mwyn i ysgolion eraill eu hystyried. Bydd yr adroddiad yn helpu ysgolion i ddeall eu cryfderau presennol, yr hyn sydd angen ei wella a hefyd y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn ymgorffori'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn eu darpariaeth. Mae'n rhoi trosolwg o'r gwaith paratoi a wnaed gan yr ysgolion hyn tua blwyddyn ar ôl i'r Fframwaith gael eu ryddhau i ysgolion.

Y Gymraeg

Cynigion

Mae'r cynigion yn cadw'r Gymraeg fel rhan statudol o'r cwricwlwm. Mae hyn yn debyg i'r gofyniad deddfwriaethol presennol sy'n pennu bod y Gymraeg yn rhan statudol o'r cyfnodau allweddol. Fodd bynnag, mae'r cynnig i ddileu'r Rhaglenni Astudio Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a phennu un continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg yn newid mawr i ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd y cynigion hyn yn cael mwy o effaith ar ysgolion Saesneg, er na fydd hyn o reidrwydd yn effaith ariannol. Bydd yn rhaid i ysgolion Saesneg ganolbwyntio mwy ar eu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Caiff disgwyliadau gwahanol eu pennu ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion Saesneg ar ffurf Deilliannau Cyflawniad, a bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel strwythur dros dro i gefnogi athrawon.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cyfnod trosglwyddo ar gyfer y trefniadau hyn a fydd yn galluogi ysgolion Saesneg i wella eu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg dros amser. Bydd y disgwyliadau hyn, a amlinellir drwy'r Deilliannau Cyflawniad, yn cael eu hadolygu bob tair i bum mlynedd ac i gynyddu lefel yr her er mwyn adlewyrchu'r newid ym mhrofiad a dysgu'r dysgwyr mewn perthynas â'r Gymraeg wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu.

Nid yw'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â newidiadau ehangach i'r system i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o Gymraeg 2050, ond yn hytrach mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr. Felly, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn arfarnu'r effaith mewn perthynas â'r Gymraeg sy'n ymwneud yn benodol â'r cwricwlwm.

Costau ac arbedion

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn y cwricwlwm ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn offeryn allweddol i helpu'r gweithlu i ddarparu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg. Yn 2017-18, dyrannwyd £3.350 miliwn i'r cynllun hwn⁸. I wella sgiliau ymarferwyr o ran y Gymraeg er mwyn darparu un continwwm o gynnydd, rhagwelir y bydd yr wybodaeth hon yn cyfateb i'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer tair i bum mlynedd gyntaf y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd (2021-22 i 2025-26), ac wedyn bydd y disgwyliadau'n cael eu hadolygu. Fodd bynnag, gellir ei defnyddio hefyd i adlewyrchu'r wybodaeth

⁸Diffinnir y gwariant a ddyrannwyd i'r cynllun yn 2018-19 a 2019-20 fel cost suddedig yn yr Asesiad hwn.

a fydd yn cael ei defnyddio i gefnogi arfarniad o'r gwariant ar y Cynllun Sabothol yn dilyn y newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cymorth ariannol drwy'r Grant Gwella Addysg a'r Grant Gwella Safonau Mewn Ysgolion er mwyn helpu awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ymgymryd â gweithgareddau. Nid yw'r Grant Gwella Addysg wedi'i neilltuo, ac felly nid oes modd nodi symiau penodol a ddyrannwyd gan awdurdodau lleol a chonsortia i gefnogi'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Darparu hyfforddiant yn yr ysgol i ysgolion penodol er mwyn gwella'r modd y caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i dysgu.
- Cryfhau'r arweinyddiaeth o fewn clystyrau ar gyfer y Gymraeg a Dwyieithrwydd drwy gyfarfodydd rhwydwaith cydlynwyr y Gymraeg ar gyfer clystyrau cynradd.
- Helpu clystyrau i ddatblygu trefniadau trosglwyddo ar gyfer y Gymraeg o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a chyflymu cynnydd disgyblion ym Mlwyddyn 7.
- Cefnogi rhaglenni trochi hwyr ar gyfer addysg Gymraeg.
- Datblygu adnoddau trawsgwricwlaidd i gefnogi datblygiad y Gymraeg.

Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn parhau i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn y cwricwlwm.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ariannol i ddatblygu adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg nad ydynt ar gael yn fasnachol oherwydd maint y farchnad, er mwyn helpu i ddarparu'r cwricwlwm mewn ysgolion ar draws Cymru.

Bydd angen datblygu adnoddau dwyieithog newydd ar gyfer dysgu proffesiynol ac i gefnogi'r cwricwlwm diwygiedig. Bydd y costau a ysgwyddir wrth ddatblygu'r canllawiau hyn yn gost suddedig gan y byddant yn cael eu hysgwyddo cyn y cyfnod a arferir gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, bydd y costau ar gyfer adnoddau a ddatblygir yn ystod y broses o weithredu'r ddeddfwriaeth yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad terfynol.

Effeithiau cymdeithasol

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi thema strategol gyntaf Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg, sef 'Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg'. Mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y bydd y bwriadau polisi

sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r strategaeth yn cefnogi'r trywydd tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae tystiolaeth gan Estyn wedi tynnu sylw at effaith safonau Cymraeg ail iaith ar gyrhaeddiad disgyblion yn y Gymraeg: "*Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r ddarpariaeth wedi cael ei datblygu gystal yng nghyfnod allweddol 2.*" Mewn ysgolion uwchradd: "*Mae'r safonau mewn Cymraeg fel ail iaith yn dda mewn ychydig o ysgolion ac maen nhw'n gwella yn y rhan fwyaf ohonyn nhw*" (Adroddiad Blynyddol Estyn 2011-12). Mae hyn yn cefnogi'r cynnig i ddileu'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.

leithoedd rhyngwladol

Cynigion

Yr opsiwn a ffeirir yw bod y Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y MDPH leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a amlinellir yn y canllawiau statudol, yn nodi bod disgwyl i ysgolion cynradd addysgu iaith/leithoedd rhyngwladol. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion o ran pryd a sut y caiff leithoedd eu cyflwyno.

Byddai'r opsiwn 'Busnes fel arfer' yn golygu y byddai'r Deilliannau Cyflawniad ar gyfer y MDPH leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a amlinellir mewn canllawiau statudol, yn nodi disgwyliad bod dysgwyr yn dechrau dysgu iaith ryngwladol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd. Mae'r opsiwn hwn yn aildatgan y gofynion presennol lle mae leithoedd tramor modern yn statudol yng Nghyfnod Allweddol 3.

Rhagwelir y bydd yr opsiwn a ffeirir yn cael mwy o effaith ar ysgolion cynradd gan y bydd disgwyl iddynt ddarparu ar gyfer addysgu leithoedd rhyngwladol, sy'n rhywbeth nad ydynt yn gwneud ar hyn o bryd. Yn ogystal, bydd yn effeithio ar drefniadau arolygu Estyn ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r consortia rhanbarthol eisoes yn helpu ysgolion cynradd i ddarparu leithoedd Tramor Modern drwy'r rhaglen Dyfodol Byd-eang. Felly, ni ragwelir effaith fawr ar eu rôl nhw.

Costau ac arbedion

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi leithoedd tramor modern drwy'r prosiect Dyfodol Byd-eang. Mae hyn yn golygu bod y consortia'n darparu cymorth i ysgolion cynradd ar gyfer darparu leithoedd tramor modern, gan gynnwys gweithgareddau fel:

- Cydweithio rhwng ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo er mwyn darparu cyfleoedd i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 astudio leithoedd tramor modern;
- Darparu Grant Rhwydwaith Almaeneg Digidol;
- Datblygu cysylltiadau trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ar gyfer leithoedd tramor modern;
- Creu partneriaethau rhwng ysgolion cynradd er mwyn cyflwyno o leiaf un iaith dramor fodern; a
- Datblygu adnoddau addysgu cynradd ar gyfer leithoedd tramor modern.

Rhagwelir y gall yr wybodaeth am gostau sy'n gysylltiedig â Dyfodol Byd-eang gael ei defnyddio i gyfateb i'r wybodaeth a ddefnyddir i arfarnu'r gwariant ar gyfer darparu leithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd.

Effeithiau cymdeithasol

Ceir tystiolaeth bod cyflwyno ieithoedd yn gynnar mewn ysgolion cynradd yn gwella cymhelliad ac agwedd dysgwyr at astudio iaith drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Yn benodol, gwnaeth astudiaeth Ffactor Oedran Barcelona (Barcelona Age Factor) ddod i'r casgliad fod dechrau dysgu iaith yn yr ysgol gynradd yn gwella agwedd dysgwyr at ddysgu ieithoedd (Muñoz 2006).

Yn ogystal, mae darparu ieithoedd rhwyngwladol mewn ysgolion cynradd yn debygol effeithio ar ymarferwyr hefyd. Bydd angen archwilio'r effaith hon ymhellach wrth i'r Asesiad ddatblygu a phan fydd y cwricwlwm ar gael i roi adborth arno ym mis Ebrill 2019.

Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb

Cynigion

Dyma'r opsiynau a ffeifir ar gyfer darpariaethau'n⁹ ymwneud ag Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb:

- Ailenwi addysg rhyw yn Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb mewn deddfwriaeth.
- Gwneud addysgu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb priodol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm - D.S. nid yw hwn yn ddarpariaeth gwbl newydd.
- Cadw'r gofyniad i ysgolion a lleoliadau gyhoeddi eu polisi ar addysg rhyw, ac ehangu hyn i gynnwys Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb.
- Cadw'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ym y maes hwn.
- Dileu'r gofyniad i ddarparu addysg rhyw i ddysgwyr ôl-16 mewn ysgolion.

Byddai'r opsiwn 'Busnes fel arfer' yn golygu cadw elfennau statudol addysg rhyw ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 a'r chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir (h.y. cadw'r gofyniad i ddarparu addysg rhyw i ddysgwyr ôl-16 mewn ysgolion), ac Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, a chadw'r gofyniad i ysgolion gyhoeddi canllawiau ar addysg rhyw. Bydd y costau datblygu, cyhoeddi a chyfieithu sy'n gysylltiedig â'r canllawiau statudol ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd yn gost suddedig gan y byddai'r canllawiau hyn ar gael ochr yn ochr â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ym mis Ionawr 2020.

Mae'r cwricwlwm presennol yn ei gwneud yn ofynnol darparu elfennau fel Addysg Rhyw ac ABCh, a fydd yn sail i'r Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb statudol arfaethedig, mewn cyfnodau allweddol gwahanol. Felly, nid oes gofynion newydd i rai ymarferwyr o ganlyniad i'r newidiadau. Yn ogystal, bydd y disgwyliadau ar ymarferwyr mewn perthynas â darparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb priodol yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r gofynion presennol yn y Cyfnod Sylfaen fel rhan o'r Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Fodd bynnag, bydd y darpariaethau arfaethedig yn ymwneud ag Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn cyflwyno gofyniad deddfwriaethol newydd i ddarparu'r addysg hon fel rhan o'r cwricwlwm gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 - caiff hyn ei arfarnu fel rhan o'r Asesiad hwn, yn ogystal â'r gwaith o addasu strwythur y pwnc.

⁹ Mae'r Hawl i Dynnu Allan yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Felly, nid yw'r opsiynau wedi'u harfarnu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn.

Rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar y grwpiau canlynol: dysgwyr; ysgolion; awdurdodau lleol; a chonsortia rhanbarthol. Mae rôl Estyn eisoes yn cynnwys arolygu ABCh ac Addysg Rhyw a datblygu dealltwriaeth well¹⁰, ac felly rhagwelir y bydd yr effaith ar Estyn yn fach iawn.

Costau ac arbedion

O ystyried y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig, tybir y bydd angen cefnogaeth ar ymarferwyr i ddarparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb priodol fel rhan o'r cwricwlwm statudol. Bydd hyn yn ofyniad ychwanegol ar ysgolion cynradd, ar ffurf cymorth dysgu proffesiynol i ymarferwyr drwy gydol addysg orfodol.

Yn 2018-19, darparodd Llywodraeth Cymru £200,000 i'r consortia addysg rhanbarthol er mwyn helpu athrawon i ddarparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Cynigir bod hyn yn cael ei ddefnyddio fel procsi at ddibenion yr Asesiad hwn ar gyfer yr wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi statws statudol arfaethedig Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd. Mae disgwyl i'r cyllid hwn fod yn gyllid dros dro wrth i'r system symud tuag at y trefniadau newydd.

Effeithiau cymdeithasol

Yn ôl dystiolaeth y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, mae'r ddeddfwriaeth bresennol wedi dyddio ac nid yw'n addas ar gyfer y byd sydd ohoni.¹¹ Mae gwaith Estyn ar addysgu ynghylch cydberthnasau iach mewn ysgolion¹² yn tynnu sylw at y dulliau amrywiol a ddefnyddir i ddarparu addysg o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd.

Bydd rhoi statws statudol i'r maes hwn yn y cwricwlwm yn gofyn am ymrwymiad gan ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion i ddarparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb priodol mewn ysgolion a lleoliadau. Mae Moore, Littlecott, Fletcher, Hewitt a Murphy (2016) yn nodi bod ymrwymiad gan yr uwch dîm rheoli i wella iechyd yn bwysig er mwyn hwyluso ymyriadau cynhwysfawr.

Mae llawer o'r dystiolaeth ar effaith Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb ar ddysgwyr yn aml yn canolbwyntio ar y manteision o ran iechyd cyhoeddus ac ar ddysgwyr uwchradd a'u profiadau o'r addysg hon, ac ychydig iawn o waith ymchwil a geir ar Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd (Llywodraeth Cymru, 2017). Felly, bydd y bylchau yn y dystiolaeth yn cael eu hasesu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad hwn, ac yn cael eu llenwi mewn ffordd gymesur.

¹⁰ [Adolygiad o addysg perthnasau iach](#) (2017).

¹¹ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-y-cwricwlwm-addysg-rhyw-a-perthnasoedd-yng-nghymru.pdf>

¹² <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/A%20review%20of%20healthy%20relationships%20education%20cy.pdf>

Addysg Grefyddol

Cynigion

Dyma'r cynigion mewn perthynas ag Addysg Grefyddol¹³:

- a) Cadw'r darpariaethau presennol yn ymwneud â mabwysiadu maes llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol ym mhob awdurdod lleol, ond sicrhau bod yn rhaid i'r cynadleddau meysydd llafur cytunedig a'r awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau a lunnir er mwyn datblygu cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau.
- b) Sicrhau darpariaeth o ran Addysg Grefyddol i bob dysgwr hyd at 16 oed (darpariaeth a gedwir).
- c) Dileu'r esemptiad presennol rhag darparu Addysg Grefyddol mewn dosbarthiadau meithrin er mwyn sicrhau cysondeb ag elfennau eraill MDPH y Dyniaethau.
- d) Dileu'r gorfodaeth i ddarparu Addysg Grefyddol i ddisgyblion cofrestredig o oedran addysg ôl-orfodol mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwahardd ysgolion rhag darparu addysg o'r fath nac yn gwahardd dysgwyr rhag cymryd rhan mewn gwersi yn wirfoddol.
- e) Diwygio'r disgrifiad o faes llafur cytunedig er mwyn adlewyrchu credoau anghrefyddol.
- f) Cadw'r darpariaethau presennol yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol enwadol mewn ysgolion â chymeriad crefyddol.
- g) Diweddarw'r disgrifiad o aelodaeth Pwyllgor A y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau) a'r cynadleddau meysydd llafur cytunedig er mwyn cydnabod credoau anghrefyddol a chredoau crefyddol.

Mae'r opsiwn 'Busnes fel arfer' yn cynnwys cadw gofynion y maes llafur cytunedig; y gofyniad statudol i ddarparu Addysg Grefyddol i bob disgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir; a'r esemptiad rhag darparu Addysg Grefyddol mewn dosbarthiadau meithrin.

Mae'r cynigion yn ymwneud ag Addysg Grefyddol yn cyfuno gofynion deddfwriaethol newydd a diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol. Gan fod y darpariaethau canlynol yn cael eu hailddatgan, ni fyddant yn cael eu harfarnu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol: gofynion yn ymwneud â mabwysiadu maes llafur Addysg Grefyddol ym mhob awdurdod lleol (gyda newid bach ar gyfer rhoi ystyriaeth i fframweithiau ategol) a natur statudol y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm.

Y cynigion sy'n debygol o gael effaith yw'r cynigion i ddileu'r esemptiad rhag darparu Addysg Grefyddol mewn dosbarthiadau meithrin a dileu'r gofyniad i ddarparu Addysg Grefyddol yn y

¹³ Mae'r Hawl i Dynnu Allan yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Felly, nid yw'r opsiynau wedi'u harfarnu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn.

chweched dosbarth. Felly, byddant yn effeithio ar y grwpiau canlynol: dysgwyr ôl-16; lleoliadau nas cynhelir; lleoliadau a gynhelir; awdurdodau lleol; y cynadleddau meysydd llafur cytunedig; CYSAGau; a grwpiau credoau crefyddol/anghrefyddol.

Costau ac arbedion

Mae Addysg Grefyddol wedi bod yn gyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol ers cyflwyno'r Cwricwlwm Sylfaenol. Felly, yn yr un modd â'r dyletswyddau ehangach yn ymwneud â'r cwricwlwm, caiff Addysg Grefyddol ei hariannu drwy gyllidebau'r awdurdodau lleol sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw wrth Lywodraeth Cymru, y dreth gyngor a chyllid arall yr awdurdod lleol. Fel y nodir yn y darpariaethau'n ymwneud â strwythur y cwricwlwm, nid yw'r arian hwn wedi'i neilltuo. O ystyried yr ymreolaeth hon ar y cyllidebau a'r amrywiaeth sy'n debygol ar draws awdurdodau lleol dros amser, byddai'n gamliwiad i bennu symiau penodol ar gyfer darparu Addysg Grefyddol. Caiff y costau hyn eu nodi yn yr adran 'strwythur y cwricwlwm'.

Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod costau a/neu arbedion yn gysylltiedig â'r newidiadau ar gyfer dosbarthiadau meithrin a disgyblion chweched dosbarth mewn lleoliadau a gynhelir. Dyma fwlch yn y dystiolaeth ac felly bydd datblygu dealltwriaeth o'r effeithiau hyn yn flaenoriaeth yng nghyfnodau nesaf y gwaith o ddatblygu'r Asesiad.

Yn ogystal, bydd y newidiadau i'r disgrifiad o faes llafur cytunedig yn effeithio ar grwpiau crefyddol ac anghrefyddol. Bydd angen archwilio hyd a lled yr effaith hon wrth i'r Asesiad ddatblygu.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yn 2008 er mwyn helpu'r cynadleddau meysydd llafur cytunedig a'r awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Mae'r fframwaith yn cynnwys cymorth i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ar gyfer darparu Addysg Grefyddol. O ran y cwricwlwm newydd, bydd fframwaith ategol yn cael ei greu a fydd yn cysylltu â'r elfennau'n ymwneud ag Addysg Grefyddol ym MDPH y Dyniaethau ac yn eu datblygu. Bydd y fframwaith hwn yn helpu'r cynadleddau meysydd llafur cytunedig a'r awdurdodau lleol, a bydd hefyd ar gael i ymarferwyr. Awgrymir y bydd cost y gwaith o ddatblygu'r canllaw pellach hwn yn gost suddedig.

Gan fod argymhelliad 9 Dyfodol Llwyddiannus yn nodi y dylai Addysg Grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi arian i'r Gwasanaeth Addysg Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i ddatblygu canllawiau sy'n rhoi ystyriaeth i'r MDPH hwn er mwyn gwneud cysylltiadau rhwng y maes llafur Addysg Grefyddol enwadol perthnasol a'r MDPH ei hun.

Effeithiau cymdeithasol

Ceir tystiolaeth bod cael addysg grefyddol yn y cwricwlwm yn fanteisiol i ddysgwyr. Mae'r Athro Donaldson yn nodi yn *Dyfodol Llwyddiannus* ei bod yn "meithrin parch a dealltwriaeth o wahanol fathau o grefydd dros amser ac mewn gwahanol gymdeithasau". Amlinellodd y Comisiwn ar Addysg Grefyddol (2018) yn ei adroddiad diweddaraf bwysigrwydd addysg grefyddol i helpu plant a phobl ifanc fod yn ymwybodol o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol amrywiol er mwyn gallu byw a gweithio'n dda gyda phobl sydd â safbwyntiau gwahanol i'w rhai nhw. Mae Estyn (2013) yn nodi bod Addysg Grefyddol yn annog disgyblion i archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, a'u heffaith ar fywyd bob dydd.

Mae hefyd yn debygol y bydd effaith gymdeithasol benodol ar leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg feithrin a ariennir. Dyma fwlch yn y dystiolaeth, a bydd yn cael ei lenwi drwy dystiolaeth a ddarperir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn a thystiolaeth a gesglir gan leoliadau penodol i gefnogi datblygiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Y trefniadau asesu gweddnawidiol

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi argymhellion sy'n ymwneud ag asesu fel rhan o newid sylweddol i wella'r broses addysgu a dysgu yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn addas er mwyn cefnogi'r trefniadau asesu arfaethedig a amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r Papur Gwyn, felly, yn cynnig y dylid ailddeddfu ynghylch y darpariaethau asesu gan wneud newidiadau technegol. Mae hyn yn golygu bod y darpariaethau eisoes yn ofyniad statudol o fewn y system addysg bresennol yng Nghymru - gweler isod.

- 1) **Rhoi blaenoriaeth i Asesu Ffurfiannol** - mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, ac mae'n cael ei gynnal fel rhan o ddarpariaethau deddfwriaethol arfaethedig y cwricwlwm a'r trefniadau asesu.
- 2) **Cymedroli Asesiadau Athrawon i sicrhau dibynadwyedd canlyniadau asesiadau lle cânt eu defnyddio at ddibenion cymharu** - mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, ac mae'n cael ei gynnal fel rhan o ddarpariaethau deddfwriaethol arfaethedig y cwricwlwm a'r trefniadau asesu.
- 3) **Dyletswydd ar ysgolion i roi adroddiad i rieni** - mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, ac mae'n cael ei gynnal fel rhan o ddarpariaethau deddfwriaethol arfaethedig y cwricwlwm a'r trefniadau asesu.
- 4) **Pŵer i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid weinyddu profion cenedlaethol** - mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, ac mae'n cael ei gynnal fel rhan o ddarpariaethau deddfwriaethol arfaethedig y cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Mae'r ddeddfwriaeth eisoes wedi'i haddasu i adlewyrchu'r newidiadau o asesiadau papur i ddulliau profi ymaddasol, ac felly nid yw wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 5) **Trefniadau trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd** - mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, ac mae'n cael ei gynnal fel rhan o ddarpariaethau deddfwriaethol arfaethedig y cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

Disgwylir i'r darpariaethau hyn effeithio'n llai ar ysgolion ac awdurdodau lleol, felly, gan y byddant yn ei gwneud yn ofynnol iddynt barhau i ymgymryd â gweithgareddau y maent eisoes yn ymgymryd â nhw er mwyn cyflawni'r gofynion deddfwriaethol. Ni chaiff y darpariaethau hyn eu harfarnu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol felly.

Darpariaethau newydd

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn cynnig pwerau newydd i gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer y Fframwaith Asesu a Gwerthuso, i gynnwys y defnydd o e-bortffolios mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r broses asesu. Trwy greu dogfen ganllawiau gynhwysfawr, caiff y rhain eu tynnu ynghyd mewn un lle. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn amlinellu gofynion newydd ynghylch e-bortffolios y bydd yn rhaid i ysgolion, penaethiaid a chyrff llywodraethu roi sylw dyledus iddynt. Caiff yr elfen hon ei harfarnu fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Yn ogystal, mae'r cynigion yn awgrymu gosod dyletswydd i bennu Deilliannau Cyflawniad ar ysgolion, gan roi disgrisiwn i'r ysgolion bennu beth yn union ydynt. Caiff cyfarwyddyd ar gyfer Deilliannau Cyflawniad ei nodi mewn Canllawiau Statudol i gefnogi ysgolion. Bwriedir i effaith y ddarpariaeth hon fod yn rhan o weithgarwch ymarferwyr a'r sector i baratoi ar gyfer y trefniadau newydd, a chaiff ei chostio fel rhan o ddarpariaethau strwythur y cwricwlwm.

E-bortffolios

Cynigion

Mae'r cynigion yn nodi mai'r hyn a ffeirir yw bod y canllawiau statudol yn cefnogi'r defnydd o e-bortffolios mewn ysgolion. Byddai'r opsiwn o barhau fel arfer yn golygu bod e-bortffolios ar gael i ysgolion eu defnyddio, ond heb ganllawiau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid roi sylw dyledus i'r defnydd a wneir ohonynt.

Mae cynlluniau i ddatblygu elfennau e-bortffolio ar blatfform presennol Hwb i gefnogi'r cwricwlwm a fydd ar gael i ysgolion yn 2020. Mae hyn yn golygu nad oes cost bellach i hyn ac ni chaiff ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Bydd y cynigion yn effeithio ar ddysgwyr ac ysgolion, gan gynnwys penaethiaid a chyrff llywodraethu.

Costau ac arbedion

Y prif gostau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon yw: ysgrifennu, cyhoeddi a chyfieithu canllawiau statudol; a'r broses o ymgyswrtio â'r canllawiau i ysgolion ac ymarferwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar gael. Rhagwelir, felly, na fydd cost bellach i'r gwaith o ddatblygu, cyhoeddi a chyfieithu canllawiau statudol ar y trefniadau asesu.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd angen amser ar ysgolion ac ymarferwyr i ymgysgu ymgyfarwyddo â'r canllawiau statudol ar ôl i'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei phasio. Rydym o'r farn y bydd yna gost o ran amser ymarferwyr.

Rydym yn cynnig y dylid cyfrifo costau ymgyfarwyddo gan ddefnyddio cyfraddau cyfartalog y gweithlu addysgu fesul awr sydd yn nogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol 2018.¹⁴ Mae'r fethodoleg hon wedi'i defnyddio mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol eraill ar draws y DU. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn taro yn ystod blynnyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23.

Wrth i'r polisi ddatblygu, caiff hyn ei gyfrifo yn ychwanegol at dystiolaeth bellach ynghylch sut caiff e-bortffolios eu hintegreiddio i addysgu a dysgu; y gofynion penodol ar ymarferwyr; a'r effaith ar elfennau eraill o arferion addysgu.

Effeithiau cymdeithasol

Mae'r effaith ar y dysgwr hefyd yn ystyriaeth bwysig wrth arfarnu'r gofynion ar gyfer e-bortffolios. Mae'r dystiolaeth o'r tu hwnt i Gymru yn amlygu'r manteision i'r dysgwr yn sgil defnyddio e-bortffolios gan eu bod yn rhoi mwy o berchnogaeth iddo o'i ddysgu ei hun. Mae Hillyer & Lye (1996) yn dadlau bod defnyddio portffolios yn caniatáu i'r dysgwr ysgwyddo cyfrifoldeb am ei ddysgu, deall yn well ei gryfderau a'i gyfyngiadau, a dysgu pennu ei nodau ei hun (fe'u cefnogir gan Camp, 1992; a Sweidel, 1996). Mae Wade et al (1996) yn dadlau bod portffolios yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu: cymwyseddau sy'n ymwneud â dibenion, cysyniadau, geirfa, gweithdrefnau a thechnegau TGCh; a sgiliau sy'n ymwneud â datblygu gwahanol fathau o gyfathrebu.

Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth hefyd bod e-bortffolios yn gallu bod o fudd yn y dosbarth drwy greu cyfrwng i ddysgwyr ac ymarferwyr allu cydweithio, gan ddarparu gwerth addysgegol i'r dysgu (Wade a Yarbrough, 1996).

¹⁴https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/740575/School_teachers_pay_and_conditions_document_2018.pdf

Adolygu ar ôl gweithredu

Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gynnwys y dull a gynlluniwyd ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso'r polisi.

Roedd Dyfodol Llwyddiannus yn argymhell y '*dylai trefniadau gwerthuso annibynnol gael eu sefydlu ar wahân i fonitro effeithiolrwydd y strwythur newid a'r trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm mewn cysylltiad â gwelliannau yn ansawdd dysgu a pherfformiad*' (Argymhelliad 55).

Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i werthuso'r strwythur newid drwy'r Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi.

Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn datblygu dull o werthuso'r trefniadau newydd a'r diwygiadau ehangach a amlinellir yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl a bydd y cynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyn hwn yn rhan o'r gwaith cynllunio hwnnw.

Y camau nesaf

Wrth ddatblygu'r polisi ymhellach a'i gwblhau'n derfynol, gan roi ystyriaeth i'r adborth i'r Papur Gwyn a'r ymgynghoriad hwn, caiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddatblygu ymhellach i ddarparu costau, arbedion a manteision manwl yr opsiwn o barhau fel arfer a'r opsiwn a ffeirir ar sail y rhagdybiaethau a nodir yma.

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli na fydd y rhanddeiliaid, efallai, yn llawn ddeall effaith rhai o'r cynigion deddfwriaethol a amlinellir hyd nes y byddant yn gweld cynnwys y cwricwlwm ei hun. Bydd yna gyfle, felly, i edrych eto ar yr wybodaeth yn y ddogfen hon pan gaiff y cwricwlwm ei ryddhau ym mis Ebrill 2019, os oes yna newidiadau penodol y bydd angen eu gwneud.

Lle nodir bylchau yn y dystiolaeth, gan gynnwys lle bydd yr adborth yn nodi bylchau o'r fath, y camau nesaf wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fydd asesu sut i lenwi'r bylchau hyn mewn ffordd gymesur er mwyn cefnogi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol ar gael ochr yn ochr â'r cynigion deddfwriaethol pan gaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad.

Cwestiynau

1. A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwrpas y newidiadau nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y papur hwn?

2. A ydych yn cytuno â'n dull gweithredu a'r rhagdybiaethau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?
3. Pa dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi ymhellach y gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Yn benodol:
 - Addysg Grefyddol
 - Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
 - E-bortffolios
 - Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd
 - Darpariaeth ar gyfer Deilliannau Cyflawniad
4. Pa effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon?
5. A oes unrhyw sylwadau eraill ar y papur?

Llyfryddiaeth

Wing, J.M. (2008). "Computational thinking and thinking about computing." Philosophical Transactions of the Royal Society,
<http://rsta.royalsocietypublishing.org/content/366/1881/3717.short>

Camp, R. (1992). Portfolio reflections in middle and secondary school classrooms. In. K.B. Yancey (Ed.). Portfolios in the writing classroom (pp. 61–79). Urbana, IL: National Council of Teachers of English.

Commission on Religious Education. (2018). Religion and Worldviews: The way Forward – A national plan for RE. <https://www.commissiononre.org.uk/final-report-religion-and-worldviews-the-way-forward-a-national-plan-for-re/>

Estyn (2013). Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd
<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/RE%20in%20secondary%20schools.pdf>

Estyn (2018).
<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Preparing%20for%20the%20DCF%20cycle.pdf>

Hillyer, J., & Lye, T.C. (1996). Portfolios and second graders' self-assessments of their development as writers. Reading Improvement, 133, 148–159.

Muñoz, C. (2006). "The Effects of Age on FL Learning: the BAF project." In *Age and the Rate of FL Learning*. C. Muñoz (Ed.) Clevedon: Multilingual Matters.

SCYA. 2006. Pupil's experiences and perspectives of National Curriculum and Assessment.
<https://www.nfer.ac.uk/publications/NCA01/NCA01.pdf>

Sweidel, G.B. (1996). Study strategy portfolio: A project to enhance study skills and time management. Teaching of Psychology, 23(4), 246–48.

Llywodraeth Cymru. (2017). Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050. <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170725-technical-report-projection-and-trajectory-for-the-number-of-welsh-speakers-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru, 2017. Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru.

William, D., Lee, C., Harrison, C., and Black, P. (2004). Teachers developing assessment for learning: impact on student achievement. *Assessment in Education: Principles, policy & practice* 11(1): 49-65.

Wing, J.M. (2008). Computational thinking and thinking about computing.
<http://rsta.royalsocietypublishing.org/content/366/1881/3717.short>